



# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr mis Rhagfyr 2022

---

## *FFOCWS AR Y FLWYDDYN*

---

Wrth i 2022 dynnu at ei therfyn, mae'n gyfle i ni fyfrio am ddatblygiadau, dathlu'r cyflawniadau a wnaethpwyd ac edrych ymlaen i weld yr hyn sydd ar y gorwel yn 2023. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gofrestru i gael y cylchlythyr hwn bob mis ac am eich cefnogaeth barhaus wrth ein helpu i gyflawni'r hyn yr aethom ati i'w wneud – cydnabod yr angen i ddatblygu consensws am flaenoriaethau ar gyfer ein rhanbarth, a rhannu ein gweledigaeth i symud swyddi, twf a'r economi leol yn eu blaen.

Hoffem ddymuno Nadolig llawn cynhesrwydd a llawenydd i chi wrth i chi ail-gysylltu ag anwyliaid a chymryd seibiant o'r llafur dyddiol. Edrychwn ymlaen at gadw mewn cysylltiad â chi yn y flwyddyn newydd a pharhau i gydweithio er mwyn cyflawni mwy a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer ein rhanbarth.

Bellach, y cylchlythyr hwn yw ein ffordd reolaidd o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid a byddwn wastad yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu gynnwys perthnasol i'w gynnwys yma, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Helpu i gynyddu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

## Tîm Tyfu Canolbarth Cymru



### Darllenwch ymlaen am:

- Ffaith y Mis
- Adolygiad o 2022
- Cyfarfod y Timau
- Beth sydd ar y gorwel yn 2023

## Ffaith y Mis: A wyddoch chi bod bryngaer Nadolig yng Ngheredigion?



1 - Castell Nadolig, Ceredigion

Ceir bryngaer o'r Oes Haearn yn agos i arfordir Ceredigion, sy'n edrych allan dros Fae Ceredigion, ac mae ganddo enw rhyfedd; mae'n ymddangos mai hwn yw'r unig fryngaer yng Nghymru sy'n dwyn yr enw 'Nadolig'.

Yn 2004, cofnododd yr ysgolhaig ym maes enwau lleoedd, Iwan Wmffre, y cyfeiriad cyntaf at 'Kastell Yn Dolig' mewn llawysgrif o 1571/2. Erbyn 1594 yng Nghofnodion Ystad Gogerddan ar gyfer Penbryn, mae'r safle yn ymddangos fel 'Castell Nadolig', yr enw a ddefnyddir dros bedair canrif yn ddiweddarach. Mae'n ymddangos mai dim ond un lleoliad arall sy'n dwyn yr un enw, sef fferm anghysbell ger Llandysul, Ceredigion.

Y casgliad a wnaethpwyd gan Dr Toby Driver, Ymchwilydd Uwch, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yw bod yn rhaid bod Castell Nadolig wedi bod yn fan arbennig iawn yn ystod y canrifoedd diwethaf cyn y goresgyniad Rhufeinig o Brydain, gan fod yn ffocws claddu a seremonïau crefyddol o bosibl. Efallai yr oedd ei leoliad arfordirol, fel llyn cysegredig enwog Llyn Cerrig Bach yng ngorllewin Ynys Môn, wedi hwyluso ymweliadau gan deithwyr tramor o arfordiroedd Iwerydd Iwerddon, Cernyw, Llydaw a Sbaen, gan barhau traddodiad o fordeithiau Groegaidd archwiliol at ddibenion masnach a chyswllt o gwmpas arfordir Cymru a Phrydain mor bell yn ôl â 300 CC.


Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Gastell Nadolig ar wefan [Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#).

Delwedd: Castell Nadolig. Hawlfraint CBHC RCAHMW

## 2022: Prif Ddatblygiadau a Chyflawniadau

Ym mis Ionawr 2022, llofnodwyd [Cytundeb Bargen Derfynol Bargen Twf Canolbarth Cymru](#) gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol y rhanbarth, sef Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Roedd hwn yn cyfleu ymrwymiad yr holl bartneriaid i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Mae'n nodi ymrwymiad yr holl bartneriaid i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru, partneriaeth arloesol sy'n dod â buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddo ysgogi buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gan greu cymaint o effaith â phosib yn rhanbarth Canolbarth Cymru.



2 - Yn llofnodi'r Cytundeb Terfynol roedd Ellen ap Gwynn, Rosemarie Harris, cyd-gadeiryddion blaenorol Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru; David TC Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU, a Vaughan Gething, Gweinidog Economi Llywodraeth Cymru.

## Ailddatgan yr ymrwymiad i Gydweithio



3 - Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys a'r Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

- [Sioe Frenhinol Cymru](#) fu'r cyfle cyntaf i gyd-gadeiryddion Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys a Chynghorydd Bryan Davies,

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion – gyfarfod. Bu hwn yn gyfle i gadarnhau eu hymrwymiad i gydweithio er mwyn cyflawni Bargaen Twf Canolbarth Cymru.

- Rhoddwyd cyflwyniad Tyfu Canolbarth Cymru i'r cynrychiolwyr, gan ddatlu llwyddiannau a sicrhawyd eisoes yn y rhanbarth a'r cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol.

## Arweinwyr Strategol

Cadarnhaodd Carwyn Jones-Evans a Nicola Williams eu rolau fel Cyd-Swyddogion Arweiniol Strategol Portffolio ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

### Cyd-Swyddogion Arweiniol Strategol Portffolio



**Carwyn Jones-Evans**  
Rheolwr Gwasanaeth Twf a Datblygiadau Sylweddol  
Cyngor Sir Ceredigion



**Nicola Williams**  
Rheolwr Rhaglen Strategol  
Cyngor Sir Powys

*Darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth y Fargen Dwf a gweithgarwch rhanbarthol ehangach.*

## Gwaith tîm

Mae tri thîm rhanbarthol gan Dyfu Canolbarth Cymru er mwyn sicrhau datblygiad a chyflawniad y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, gan gynnwys Bargaen Twf Canolbarth Cymru.

Gellir gweld proffil o holl aelodau tîm TCC a'u rolau yn nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn.

Er bod pob tîm yn cyflawni swyddogaeth benodol, maent oll yn cydweithio'n agos i sicrhau bod gwaith yn cael ei gysoni a'i integreiddio ar draws y rhanbarth. Yma, rydym yn nodi prif ddatblygiadau a chyflawniadau pob tîm yn ystod 2022:

## Swyddfa Rheoli Portffolio Canolbarth Cymru

- Roedd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn falch o groesawu aelodau newydd i'r tîm. Dechreuodd Tom Yeo rôl Arweinydd Ynni ym mis Ebrill i yrru'r agenda ynni a datgarboneiddio ar gyfer y rhanbarth ymlaen. Ymunodd Angharad Massow fel Swyddog Cyfathrebu ym mis Mehefin ac mae wedi bod yn brysur yn codi proffil Tyfu Canolbarth Cymru. Ac ym mis Awst, dechreuodd John Collingwood rôl Rheolwr Rhaglen Safleoedd a Rhaglenni, yn arwain ar ddatblygu safleoedd a seilwaith wedi'u blaenoriaethu i ddiwallu anghenion busnes.



## Rhaglenni Blaenoriaeth

**Rhaglen Ddigidol:** Sefydlwyd bwrdd rhaglen i oruchwylio datblygiad a chyflawniad rhaglen Ddigidol. Nod Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru yw manteisio ar y cyfleoedd economaidd y gellir eu datgloi drwy fuddsoddi mewn seilwaith digidol er mwyn mynd i'r afael â diffygion mewn cysylltedd digidol, gyrru manteision technolegau newydd ymysg busnesau'r rhanbarthau ac i wella'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Cadwch lygad am ragor o newyddion ar y Rhaglen Ddigidol yn ein cylchlythyr mis Ionawr!

**Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau:** Gan ddatblygu gwaith cwmpasu a wnaethpwyd yn gynharach, ac wrth i John gychwyn yn ei rôl fel Rheolwr Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn dymuno cadarnhau rhaglen fuddsoddi a datblygu cynaliadwy y gellir ei chyflawni nawr, a fydd yn helpu i fodloni'r galw a nodwyd. Sefydlwyd bwrdd rhaglen i oruchwylio datblygiad a chyflawniad y rhaglen.

**Ynni:** Comisiynodd Llywodraeth Cymru [Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru](#) fel rhan o waith cynllunio ynni ar draws Cymru gyfan er mwyn cynorthwyo'r llwybr tuag at sero net. Cyd-ddatblygwyd dogfen y strategaeth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol ar draws cyfarfodydd a gweithdai wyneb yn wyneb a chyfarfodydd a gweithdai rhith amrywiol, ac arolygon ar-lein, ac fe'i chymeradwywyd gan ranbarth Canolbarth Cymru yn 2021. Yn dilyn datblygiad dogfen y strategaeth, mae'r rhanbarth wedi treulio 2022 yn ymgysylltu ac yn llunio cynllun gweithredu er mwyn cyflawni dogfen y strategaeth.

Cynhaliodd Tyfu Canolbarth Cymru sawl sesiwn ar ffurf gweithdy i randdeiliaid yn gynnar yn ystod y flwyddyn, a oedd yn canolbwyntio ar themâu blaenoriaeth allweddol yn nogfen y strategaeth gan gynnwys domestig, trafniadaeth, amaethyddol a masnachol, a phŵer a chynhyrchu. Ymgysylltodd y rhanbarth gyda 60 o sefydliadau ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector, ac roedd dros 150 o unigolion wedi cefnogi'r cam o adnabod dros 60 o gamau gweithredu, a gafodd eu blaenoriaethu a'u mireinio i greu set derfynol o 45 o gamau gweithredu Canolbarth Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu a Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru yn ddogfen o bwysigrwydd rhanbarthol, gan gynnig y weledigaeth, y ffocws a'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn goresgyn sialensiau allweddol i ddatgarboneiddio'r rhanbarth tuag at sero net. Mae cynllunio ynni rhanbarthol yn rhan o waith cynllunio ynni cenedlaethol ehangach, megis prosiect Ynni Dyfodol Cymru ac ymrwymadau Sero Net Cymru, ac maent wedi cael eu datblygu yn benodol i gyd-fynd ac alinio gyda datganiadau, strategaethau a chynlluniau gweithredu argyfwng hinsawdd lleol, gan greu cyswllt uniongyrchol ac uchelgais a rennir yng Nghymru o'r lleol i'r cenedlaethol.


Nod Tyfu Canolbarth Cymru yw sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cynllun gweithredu y strategaeth yn gynnar yn 2023, yna bydd y ffocws yn symud i Gynlluniau Ynni Ardal Lleol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Powys a Cheredigion, a fydd yn ymchwilio ymhellach i fanylion system ynni leol mewn cymunedau ym Mhowys a Cheredigion, gan nodi ymyriadau a phrosiectau sy'n cyd-

fynd â'r strategaeth ynni ac sy'n cefnogi uchelgais Canolbarth Cymru i ddatgarboneiddio sectorau allweddol ymhellach.

## Bargen Twf Canolbarth Cymru

Mae prosiectau Bargen Twf posibl wedi cyflwyno eu Hachosion Busnes Amlinellol Strategol i gael eu hasesu ac mae chwe phrosiect wedi cael y gorchymyn i symud ymlaen i ddatblygu Achosion Busnes Amlinellol.

Edrychwch yn ôl ar ein cylchlythyr [mis Hydref](#) i ddarganfod ychydig mwy am bob prosiect.



4 - Mae'r prosiectau yn cynnwys, Datblygiad Harbwr Aberaeron, Cwm Elan, Canolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd, Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd, Cynefin: Calon Werdd Cymru a Chanolfan Sbectrwm Cenedlaethol.

- Cynhaliwyd adolygiad sicrwydd cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnig sicrwydd i gyllidwyr y Fargen Newydd o gapasiti a gallu Canolbarth Cymru i gyflawni'r Fargen Twf yn llwyddiannus.
- Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyfres o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Fargen Dwf gydag Aelodau Etholedig o awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r DU a Grŵp Cyngori Economaidd y Fargen Twf. Bydd y gweithdai yn cynnwys cyflwyniadau gan Noddwyr y Prosiect ac yn rhoi'r cyfle i gael trafodaeth ar y cynigion ac yn rhoi adborth i helpu i gryfhau'r achosion busnes.

## Gweithgareddau Cyfathrebu

- Fis ar ôl mis, rydym yn parhau i weld cynnydd yn nifer ein dilynwyr ar Twitter a LinkedIn. Os nad ydych yn ein dilyn yn barod, trowch at ein cyfrifon nawr, pwyswch fotwm dilyn a rhannwch hynny gyda'ch cymheiriaid: <https://twitter.com/growingmidwales> [www.linkedin.com/company/growing-mid-wales](http://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales)
- Sefydlwyd cylchlythyr misol TCC. Hyd yn hyn, rydym wedi bwrw golwg ar Drafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC), Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) Canolbarth Cymru, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) Canolbarth Cymru a chynigion prosiect y Fargen Twf. Gellir dod o hyd i'r holl gylchlythyrau ar y dudalen Newyddion a Digwyddiadau ar [ein gwefan](#).



5 - Cylchlythyron Tyfu Canolbarth Cymru 2022

## Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RSP)

### Cadeirydd newydd ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru



6 - Emma Thomas, ABER Instruments

Ym mis Hydref, yn ystod cyfarfod blynyddol Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, cyhoeddwyd mai Emma Thomas o gwmni rhanbarthol allweddol ABER Instruments fyddai Cadeirydd newydd y Bwrdd. Mae Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cyflawni rôl allweddol wrth helpu i yrru gweledigaeth y rhanbarth ar gyfer dysgu a sgiliau, gan gynrychioli llais y sector preifat yn y rhanbarth er mwyn dylanwadu ar a chynorthwyo gweithgarwch penderfynu rhanbarthol a hyrwyddo'r rhanbarth ar lefel genedlaethol.

Ar hyn o bryd, Emma Thomas yw Rheolwr Adnoddau Dynol ABER Instruments, Gwneuthurwr Gwyddor Bywyd, ac mae wedi bod gyda'r cwmni ers y saith mlynedd a hanner diwethaf. Dywedodd Emma Thomas: "Rwyf wedi fy nghyffroi gan rôl Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac yn gobeithio y gallwn fel grŵp helpu i wneud gwahaniaeth drwy sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau gywir ar gael i ddiwallu anghenion a gofynion Canolbarth Cymru. Mae cadw ein pobl ifanc gyda'r sgiliau cywir yn hanfodol i'n heconomi."

[Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl llawn am gefndir Emma.](#)

- Ymunodd Arinola Ogundeji â thîm RSP fel Swyddog Cymorth Prosiect, yn darparu cefnogaeth i dîm yr RSP a chynorthwyo i ddatblygu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau.



- Cynhaliwyd Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth Canolbarth Cymru yn ystod yr Hydref. Mae prif ganfyddiadau'r arolwg wedi cyfrannu at Gynllun Gweithredu a Chynllun Sgiliau a Chyflogaeth Canolbarth Cymru 2022/2025, sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.
- Adroddiad Gwarant Pobl Ifanc: Mae'r Rhaglen Lywodraethu (PfG) yn cyflwyno ymrwymiad uchelgeisiol i gyflawni'r Gwarant Pobl Ifanc, a fydd yn cynnig cymorth i bawb dan 25 oed ar eu trywydd i sicrhau gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth. Gosodwyd y gwarant er mwyn sicrhau na fyddai cenhedlaeth yn cael ei cholli ar draws Cymru oherwydd y cwmp economaidd a ragwelir a'r codiad enfawr mewn diweithdra o ganlyniad i COVID-19 a Brexit. Mae RSP wedi datblygu adroddiad sy'n ystyried y rhwystrau sy'n atal darpariaeth a dilyniant fel rhan o'r adroddiad ymchwil desg a'r Cynllun Gweithredu. Cynhaliwyd ymarfer mapio o'r ddarpariaeth bresennol ac fe'i rhannwyd gyda Chymru'n Gweithio. Bydd gwaith pellach yn parhau yn y maes polisi pwysig hwn.

## Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RET)

- Ymunodd Barbara Green â thîm RET fel Swyddog Cymorth Prosiect, darparu cefnogaeth i dîm RET a chydweithwyr ehangach Tyfu Canolbarth Cymru, ac i helpu i gydweithio â gweithgareddau ymgysylltu rhanbarthol.





## Prosiectau a ariannir gan Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF)


Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau a ariannir gan ESIF yn y rhanbarth sydd wedi cael eu cwblhau yn ystod 2022. Mae RET Canolbarth Cymru a Thyfu Canolbarth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r prosiectau hyn er mwyn helpu Canolbarth Cymru i greu dyfodol mwy disglair:

**Bwydydd y Dyfodol:** Cyflawnwyd prosiect [Bwydydd y Dyfodol](#) gan Brifysgol Aberystwyth a BIC Innovation trwy gyfrwng Clwstwr Maeth Cymru. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, cafodd £2.25m trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Roedd y rhaglen wedi cynorthwyo cynhyrchwyr bwyd a diod masnachol i ymgysylltu â phrosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol, a oedd wedi gwella eu gallu i gystadlu a chynorthwyo eu twf a'u cynaladwyedd yn y dyfodol yn ei dro. Wrth gefnogi twf y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn y dyfodol, roedd y rhaglen wedi sicrhau cyflawniad mewn perthynas ag uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau twf a datblygiad gwledig, gan ganolbwyntio ar dri cholofn:

**Anghenion Byd-eang** – newid hinsawdd, poblogaeth y byd a chynhyrchu bwyd cynaliadwy

**Anghenion yr Unigolyn** – optimeiddio iechyd a lles da trwy gynhyrchion a bodloni galwadau defnyddwyr

**Perthnasedd i Gymru** – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



## GEOM (Data Daearyddol ac Arsylwi'r Ddaear ar gyfer Monitro)


Roedd rhaglen Data Daearyddol ac Arsylwi'r Ddaear ar gyfer Monitro (GEOM), dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, yn fenter 3 blynedd a gafodd £1.9m trwy gyfrwng Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Ei nod oedd cynnig cymorth i sefydliadau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru i fanteisio ar wybodaeth data gofodol, daearyddol ac arsylwi'r ddaear gan ddefnyddio arbenigedd a galluoedd tîm GEOM.

Roedd GEOM yn cynnig mynediad i ddeallusrwydd artiffisial a'r gweithgarwch prosesu delweddau diweddaraf er mwyn casglu a dehongli gwybodaeth hanfodol at ddefnydd amrediad o sectorau, gan gynnwys amaethyddiaeth, ynni, diogelwch, yr amgylchedd, twristiaeth, trafniadaeth a seilwaith, gan helpu cwmnïau i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau yn barod ar gyfer y farchnad.

Gallwch gael gwybod mwy am waith pwysig [GEOM](#) yn yr astudiaethau achos hyn:

- System trosglwyddo data rhad er mwyn hwyluso synwryddion ar ffermydd da byw – Cyngor Caerffili, IBERS a Phrifysgol Aberystwyth
- Mapio Cynefin Blaenoriaeth – Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Asesiad Hyfywedd Casglu Data – Canolfan Monitro Arfordirol Cymru

- Defnyddio Heterogenedd Sbectrol i ragweld Amrywiaeth Rhywogaeth a Defnydd Gwrtaith Hanesyddol - Dŵr Cymru Welsh Water



### Canolfan Creuddyn

Agorwyd [Creuddyn](#), canolfan fusnes newydd ar gyfer Canolbarth Cymru, yn Llanbedr Pont Steffan gan gymdeithas tai y rhanbarth, Barcud. Mae'r Ganolfan yn darparu cyfleuster cymunedol ecogyfeillgar sy'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf ac sy'n cynnig lle i fentrau cymdeithasol, gan gynnal swyddi a helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol yn yr ardal.

Cefnogodd Partneriaeth TCC y prosiect trwy roi blaenoriaeth iddo er mwyn cael cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a rhaglen menter Trawsnewid Trefi, a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd y gwaith partneriaeth hwn i sicrhau buddsoddiad o £3.2m i dref Llanbedr Pont Steffan a'r economi leol.

Dywedodd Sara Jones, Swyddog Cyfleusterau Creuddyn: "Rydym yn falch iawn o Creuddyn. Yn ystod ei chyfnod byr hyd yn hyn, mae eisoes wedi ymwreiddio ei hun ym mywyd dyddiol y dref. Mae'r adeilad yn cynnig cartref i un ar hugain busnes micro (sy'n rhagori ar amcanestyniadau y cynllun busnes) ac mae'n cefnogi'r angen am ddesgiau poeth a safle busnes o'r radd flaenaf yng nghefn gwlad gorllewin Cymru. Mae'r seilwaith TG cynhwysfawr yn adeilad Creuddyn yn cynnig cynadleddau a chyfarfodydd o bell, sy'n cynnig cyfleoedd busnes diddiwedd. Mae'n ferw o brysurdeb ac yn ganolfan ar gyfer prosiectau cymunedol. Mae gweledigaeth tîm ein prosiect a'r cymorth a gafwyd ar ffurf Cyllid Ewropeaidd wedi peri i'r cysyniad fod yn llwyddiannus iawn mewn gwirionedd, ac yn batrwm ar gyfer prosiectau arloesi ym myd busnes yn y dyfodol."



### AberInnovation

Ym mis Ionawr 2022, lanswyd cronfa her gyntaf erioed Canolbarth Cymru. Nod [Safle Lansio Her Canolbarth Cymru](#) oedd datblygu datrysiadau newydd i broblemau cymdeithasol ac yn y sector

cyhoeddus trwy gyfrwng gwaith ymchwil ac arloesi, gan gynnig cyfleoedd newydd yn y farchnad ar gyfer busnesau a phobl yng Nghanolbarth Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen newydd a gefnogwyd gan Gyngorau Sir Ceredigion a Phowys dan Gronfa Adfywio Cymunedol (CRF) a chan Lywodraeth Cymru, dyfarnwyd hyd at £30,000 yr un i bedwar ar ddeg prosiect a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r sialensiau y mae Canolbarth Cymru yn eu hwynebu.

Roedd Safle Lansio tri mis Canolbarth Cymru yn galluogi'r busnesau llwyddiannus hyn i ddadansoddi a gwerthuso potensial eu cysyniadau er mwyn eu defnyddio yn y pen draw, trwy gydweithio gydag academia ac arweinwyr rhanbarthol. Roedd Safle Lansio Her Canolbarth Cymru yn unigryw hefyd gan ei fod wedi cynorthwyo nifer o unigolion ar draws y rhanbarth trwy gyfrwng lleoliad gwaith arloesol a chynllun cyfateb.

Mae enghreifftiau o brosiectau cychwynnol Rhaglen Safle Lansio Her Canolbarth Cymru yn cynnwys y canlynol:-

[Nellie Technologies](#) - datblygiad eu prototeip newid hinsawdd – Little Nellie

[Lohas Recycling](#) – datblygu'r peiriant arddangos i ddangos eu datrysiad er mwyn gwneud defnydd o ddom dofednod a'i droi yn wrtaith o ansawdd uchel.

[ARCITEKBio](#) - astudiaeth ddichonoldeb er mwyn datblygu fformiwleiddiad newydd o Xylitol o wastraff amaethyddol, yn enwedig gwellt gwenith a gynhyrchir yn lleol. Mae Xylitol yn un o'r melysyddion iachaf yn y byd ac mae'n cynnig budd sylweddol i iechyd o ran defnydd deintyddol, dietegol a diabetig.



## Cwrdd â thimau Tyfu Canolbarth Cymru

### Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RET)



**Claire Miles**  
Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol  
Canolbarth Cymru



**Barbara Green**  
Swyddog Cymorth Prosiect



**Ann Elias**  
Rheolwr Prosiectau a  
Rhaglenni Trafnidiaeth  
Rhanbarthol

### Mid Wales Regional Skills Partnership (RSP)



**Aggie Caesar-Homden**  
Rheolwr Partneriaeth



**Arinola Ogundeji**  
Swyddog Cymorth Prosiect

### Swyddfa Rheoli Portffolio (PoMO) Canolbarth Cymru



**Cathy Martin**  
Rheolwr Gweithrediadau  
Swyddfa Rheoli Portffolio



**John Collingwood**  
Rheolwr Rhaglen  
Safleoedd ac Adeiladau



**Stacey-Jayne Oakham**  
Swyddog Dadansoddi a  
Chefnogi Portffolio



**Angharad Massow**  
Swyddog Cyfathrebu



**Tom Yeo**  
Arweinydd Ynni



**David Owen**  
Rheolwr Rhaglen Digidol



**Gareth Marston**  
Rheolwr Prosiect ESF

## Grŵp Cyngori Economaidd (EAG)

### Grŵp Cyngori Economaidd (EAG)

 <p><b>Bronwen Raine</b> Cyfarwyddwr Rheoli Antur Cymru Enterprise/ Antur Teifi</p>	 <p><b>Douglas Hughes</b> Cyfarwyddwr Rheoli Douglas Hughes Architects Ltd</p>	 <p><b>Kathryn Austin</b> Prif Gyfarwyddwr Pobl a Marchnata Grŵp Heart with Smart (HwS)</p>
 <p><b>Kristian Hicks</b> Cyngorydd/Ymgynghorydd Strategaeth</p>	 <p><b>Martin Kiss</b> Ymgynghorydd Busnes</p>	 <p><b>Steve Lesbirel</b> Cyfarwyddwr Rheoli Grŵp Bbi</p>

Fel rhan o ddatblygiad Bargen Twf Canolbarth Cymru, sefydlwyd Grŵp Cyngori Economaidd, sy'n cynnwys arweinwyr busnes sy'n meddu ar arbenigedd sy'n berthnasol i ranbarth Canolbarth Cymru.

Eu rôl nhw yw cynnig llais busnes yn y Fargen Twf i Fwrdd TCC a hyrwyddo'r Fargen Twf mewn ffordd gadarnhaol yng Nghymuned Fusnes Canolbarth Cymru.

Cynhaliodd y Grŵp Cyngori Economaidd ei gyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ym mis Medi, lle y buont yn trafod nodau ac amcanion y Fargen Twf a chynnydd y Portffolio cyffredinol. Byddant yn cymryd rhan yn y gweithdai a gynhelir cyn bo hir gyda noddwyr prosiect hefyd.

Yma, rydym yn bwrw golwg agosach ar gefndiroedd a phrofiadau busnes y grŵp:

- Bronwen Raine, Cyfarwyddwr Rheoli Antur Cymru Enterprise/ Antur Teifi – Cyfarwyddwr menter cymdeithasol profiadol sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad helaeth o strategaeth, polisi a chyflawniad entrepreneuriaeth y llywodraeth. Mae Bronwen, sy'n byw yn Llangrannog, yn entrepreneur mewn meysydd lluosog ac yn brofiadol yn y sectorau trafndiaeth, gofal, twristiaeth a bwyd.
- Douglas Hughes, Cyfarwyddwr Rheoli Douglas Hughes Architects Ltd: Y Drenewydd, Y Trallwng, Aberystwyth – Mae ei brif fusnes, Hughes Architects, wedi bodoli am dros 21 mlynedd ac mae wedi cwblhau dros 5000 o adeiladau o bob siâp a maint. O'r cychwyn cyntaf, cynhaliodd Hughes Architects weithgarwch ymgynghori cymunedol fel un o'i sgiliau craidd. Cydnabuwyd yr ymgysylltu cynnar hwn gyda rhanddeiliaid allweddol gan RIBA fel arfer enghreifftiol.
- Kathryn Austin, Prif Gyfarwyddwr Pobl a Marchnata Grŵp Heart with Smart (HwS) – mae Kath, sy'n byw yn Aberteifi, yn Aelod Siartredig CIPD a'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) ac mae wedi cael ei phenodi yn Gadeirydd Bwrdd CMI Cymru yn ddiweddar. Y genhadaeth

sy'n ei sbarduno yw galluogi symudedd cymdeithasol trwy addysg ac fel rhan o'i hagenda, mae'n datblygu tîm Prentisiaeth HwS.

- Kristian Hicks, Cyngorydd/Ymgynghorydd Strategaeth. Partner Caffael Grŵp gyda Chwmni Cyfalaf sy'n Fenter Fyd-eang - mae Kristian, sy'n byw yng Ngilwern, wedi bod yn Gynghorydd Busnes, yn Ymgynghorydd Strategaeth neu'n Bennaeth Staff nifer o sefydliadau o'r radd flaenaf, AIM neu sefydliadau iau cyfatebol a restrir, Adrannau'r Llywodraeth, Sefydliadau Ariannol, busnesau bach a chanolig cyn eu sefydlu a'r rhai sydd wedi sefydlu, er mwyn datrys problemau newid, trawsnewid, twf neu drosiant.
- Martin Kiss, Ymgynghorydd Busnes - Yn ddiweddar roedd yn Brif Swyddog Gweithredol gyda Jenkins & Davies Engineering (J&D) lle sefydlodd J&D yn arweinydd y DU mewn gweithdroadau mecanyddol ym meysydd olew a nwy. Yn flaenorol roedd yn ymgynghorydd caffael i TMD Friction, Abrdn, Nokia, Cyngor Swydd Dorset, CPM, Omnicom ac Eircom. Dechreuodd ei yrfa yn McColls Retail lle daeth yn Gyfarwyddwr Pwrcasu. Mae'n byw ger Llandysul.
- Steve Lesbirel, Cyfarwyddwr Rheoli Grŵp Bbi – mae Steve wedi treulio ei fywyd gwaith cyfan yn y diwydiant dylunio ac adeiladu – gan dreulio deng mlynedd ar hugain gyda Grŵp Bbi. Bu pencadlys Bbi yn Aberhonddu er 1989 ac mae ei drosiant wedi codi o 100,000 yn ystod ei flynyddoedd masnachu cyntaf, i sefyllfa lle y bydd ei drosiant yn 40m yn 2022. Mae'n cyflogi 50 aelod o staff ar hyn o bryd, ac mae'n gyflogwr mawr yn ardal tref Aberhonddu.

## Beth sydd ar y gorwel yn 2023

- Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ynglŷn â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), mae'r cynllun buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru wedi cael [cymeradwyaeth ffurfiol](#). Cyflwynwyd [adroddiad](#) a oedd yn nodi'r strategaeth ynghylch UKSPF yng Nghanolbarth Cymru i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion a Phowys lle cymeradwyodd yr aelodau'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer dyraniad y gronfa ar gyfer Canolbarth Cymru. Bydd yn cymryd amser i gwblhau'r prosesau ar gyfer gwneud cais am gyllid a llunio cytundebau. Bydd y ddaug yngor yn ceisio cyhoeddi galwadau am geisiadau pan yn barod. Cynghorir ymgeiswyr posib i gadw llygad ar ein sianeli cyfathrebu am ddiweddariadau.
- Datblygiadau Prosiect **Bargen Twf Canolbarth Cymru**: bydd 2023 yn flwyddyn bwysig i'r prosiectau wrth iddynt ddatblygu eu hachosion busnes ymhellach, gan ddangos eu hangen am gyllid cyhoeddus a'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer y rhanbarth.
- Y garreg filltir allweddol nesaf ar gyfer y Fargen Twf yw datgloi'r cyllid cyfalaf er mwyn dechrau cyflawni cynigion y prosiect yn y Portffolio. Bydd hyn yn golygu diweddarau a chymeradwyo'r Achos Busnes Portffolio, sy'n eistedd y tu ôl i'r prosiectau a'r rhaglenni ac sy'n mynd trwy adolygiad sicrwydd er mwyn sicrhau bod ein proses lywodraethu a rheoli yn gadarn.
- Nodwyd rhestr fer o ddeuddeg safle cyflogaeth strategol ar draws y rhanbarth ac yn gynnar yn 2023, byddwn yn gweld y dewisiadau hyn yn cael eu harchwilio yn fanwl, gyda'r nod o ddewis y rhai hynny sy'n dangos yr addewid mwyaf i'w cynnwys yng nghyfran gyntaf **Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau**.

- Mae'r **Rhaglen Ddigidol** wedi nodi rhestr hir o gyfleoedd ac ymyriadau posibl i'w hystyried a'u datblygu ymhellach, gan gydnabod y bydd angen i'r rhaglen a phrosiectau posibl fod yn hyblyg er mwyn ymateb mewn ffordd effeithiol i'r amgylchedd y mae'r Rhaglen yn gweithredu ynddo, sy'n newid yn barhaus. Y flaenoriaeth ar yr adeg hon yw meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o'r lefelau cysylltedd presennol ar draws y rhanbarth, gyda gwaith mapio yn dylanwadu ar ble y dylid cyfeirio buddsoddiad, a pha brosiectau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y dyfodol.
- Cynhelir lansiad **Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru** yn ystod y gwanwyn 2023.
- Bydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol allweddol i fapio gweithgarwch wrth i weithrediadau a ariannir gan ESIF barhau i gau yn ystod 2023, a chyfrannu gwybodaeth ar gyfer gwaith cynllunio i'r dyfodol. Yn ogystal, bydd RET Canolbarth Cymru yn helpu WEFO i hyrwyddo cau prosiectau mewn ffordd effeithiol, a gwaddol Cyllid Ewropeaidd yng Nghanolbarth Cymru.
- Yn y flwyddyn newydd, bydd gennym nodwedd ychwanegol yn ein cylchlythyr misol, lle y byddwn yn bwrw golwg ar wahanol aelod o dîm TCC a'u cyfraniad gwerthfawr i'n gwaith parhaus.
- Gwnewch nodyn o'r dyddiad! Byddwn yn cynnal **digwyddiad arbennig Tyfu Canolbarth Cymru** ar 23 Mawrth 2023 am y sialensiau a'r cyfleoedd ar gyfer Economi sy'n Tyfu. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.

## Cael y wybodaeth ddiweddaraf

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion, datblygiadau a gweithgarwch Tyfu Canolbarth Cymru, ynghyd â'r sefydliadau yr ydym yn eu cynorthwyo, trwy ddilyn ein tudalennau Twitter a LinkedIn:

<https://twitter.com/growingmidwales>

[www.linkedin.com/company/growing-mid-wales](http://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales)

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru. Gallwch sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel un o Randdeiliaid Tyfu Canolbarth Cymru, rydych yn cael y negeseuon e-bost hyn fel y gallwn rannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at [growingmidwales@ceredigion.gov.uk](mailto:growingmidwales@ceredigion.gov.uk).





UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddsoddi Ewropeaidd  
European Structural  
and Investment Funds**